monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 1 Rhagfyr 2017**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, P. Jones, S. Jones, P. Jordan and P. Murphy

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

Peter Davies, Mark Howcroft, Paul Matthews, Will Mclean, John Pearson, Robert Tranter, Claire Marchant, Nicola Perry and Owen Wilce

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | Polisi Gwirfoddoli | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Derbyn y Polisi Gwirfoddoli diwygiedig a'i ddosbarthu i'r holl staff, a'i argymell i gyrff llywodraethu i'w fabwysiadu cyn gynted ag y bo modd. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3b** | Adolygiad o ffioedd a thaliadau'r Awdurdod arfaethedig i'w cynnwys o fewn cyllideb 2018-19 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Y dylid mabwysiadu'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2018/19 ar gyfer pob math o wasanaeth trethadwy a wnaed, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.<br><br>Daw'r cynnydd mewn taliadau i rym ar ddyddiad nid yn hwyrach na'r 1af Ebrill 2018 gydag unrhyw bwysau sy'n deillio o gynnydd sy'n digwydd ar ôl i'r dyddiad hwn gael ei reoli gan Brif Swyddogion yn eu dyraniadau cyllideb cyfarwyddiaeth briodol.<br><br>Bod y Prif Swyddogion yn rheoli'r pwysau cyllidebol a amlygir yn effeithiol drwy wasanaethau yn peidio â chynyddu taliadau yn unol â'r cynnydd o 2.5% a rhagdybiwyd yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2018-22. Dylid ystyried hefyd y gost effeithiolrwydd a'r costau gweinyddol sy'n deillio o weithredu cynyddiadau bach i daliadau presennol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3c** | Canolig 2018/19 i 2021/22 a chynigion cyllideb drafft 2018/19 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y rhagdybiaethau cyllidebol a amlinellir ym mharagraffau 3.11 i 3.16 yn yr adroddiad yn cael eu cytuno a'u diweddaru yn ystod y broses gyllidebol pe bai gwybodaeth well ar gael.<br><br>Bod y Cabinet yn cydnabod yr ymateb drafft i Lywodraeth Cymru ar y setliad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dros dro (Atodiad 3).<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y cyfnod ymgynghori a'r cyfle i gyflwyno cynigion amgen yn dod i ben ar 31 Ionawr 2018.<br><br>Mabwysiadu'r broses gyllidebol (fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.6 ymlaen) gan gynnwys craffu ac ymgynghori aelodau ar y gyllideb a gynhaliwyd gyda Phwyllgorau dethol ac ymgynghori â'r Cyd-grŵp Gweithredu, y fforwm cyllideb ysgolion a fforymau perthnasol eraill.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo rhyddhau'r cynigion arbedion cyllideb drafft ar gyfer 2018/19 at ddibenion ymgynghori.<br><br>Bod y Cabinet yn cytuno i barhau i weithio ar yr ardaloedd sydd eu hangen er mwyn cydbwyso cyllideb 2018/19 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, trwy weithgareddau ehangach sydd wedi'u targedu o fewn cylch gorchwyl Dyfodol Sir Fynwy.<br><br>Bod y Cabinet yn cytuno i gynnwys cyllideb Dyfodol Sir Fynwy o £200,000 fel ystyriaeth gyllideb sylfaenol o 2018/19 o ystyried y rôl allweddol y mae Dyfodol Sir Fynwy yn chwarae wrth hwyluso dyfodol mwy cynaliadwy ac ariannol fforddiadwy ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor.<br><br>Ystyried mabwysiadu'r cyflog Byw Sylfaenol yn ffurfiol fel rhagdybiaeth cynllunio ariannol yn hytrach na chyflog Byw'r Llywodraeth. Ar gyfer 2018/19 y cyfraddau yw £8.75 yr awr a £8.40 yr awr yn y drefn honno. Byddai hyn â chostau posibl a ddygwyd ymlaen o bwysau 2019/20 o £83.5k.<br><br>Cytunodd y Cabinet i ddileu agweddau Bathodyn Glas a chlwb brecwast o'r cynigion ymgynghori. Roedd Cabinet am gynnydd o 4.95% yn Nhreth y Cyngor i fod yn rhagdybiaeth cynllunio ariannol ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 (i fyny gan 1%), ond i gadw cynnydd o 3.95% yn Nhreth y Cyngor am y 3 blynedd wedi hynny.<br><br>Penderfynodd y Cabinet ddarparu ail ymateb i Lywodraeth Cymru ar fwriadau'r gyllideb gan gydnabod datganiad hydref y Canghellor. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **3d** | Cynigion cyllideb cyfalaf drafft 2018/19 i 2021/22 - ATODIAD EITHRIEDIG YNGHLWM | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cyhoeddi ei gynigion cyllideb cyfalaf drafft ar gyfer 2018/19 i 2021/22 at ddibenion ymgynghori fel y nodir ac y cyfeirir atynt yn Atodiad 2.<br><br>Mae'r Cabinet yn cadarnhau strategaeth gyfalaf, sy'n ceisio blaenoriaethu rhaglen gyfredol Ysgolion y Dyfodol ac ymrwymiadau eraill y Cyngor wrth hefyd yn parhau i ariannu isafswm rhaglen gyfalaf craidd, gan gydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn.<br><br>Mae'r Cabinet yn ailddatgan yr egwyddor y gellir ychwanegu cynlluniau newydd at y rhaglen dim ond os yw'r achos busnes yn dangos eu bod yn hunan-ariannu neu'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth uwch na'r cynlluniau presennol yn y rhaglen, ac felly'n eu disodli, ac yn adolygu blaenoriaethau cyfalaf lle'n briodol.<br><br>Bod y Cabinet yn cytuno i wneud y gorau o'r defnydd o dderbyniadau cyfalaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pan gaiff ei dderbyn i ariannu'r rhaglen gyfalaf (gan leihau'r angen i fenthyg) a / neu ei neilltuo i ad-dalu dyled fel yr amlinellir ym mharagraff 3.11.<br><br>Bod y Cabinet yn cytuno i werthu'r asedau yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau a nodwyd yn y papur cefndir eithriedig er mwyn cefnogi'r rhaglen gyfalaf, ac ar ôl cytuno arno, ni ystyrir unrhyw opsiynau pellach ar gyfer yr asedau hyn.<br><br>Gofynnodd y Cabinet i £300 mil i gael ei ychwanegu at y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |